

PHYLLIS KINNEY ar gofnodwr gwreiddiol a chasglwr PYSGOTA YNG NGHANOL Y TONAU

PRIN IAWN yw'r cysylltiadau rhwng cerddoriaeth a physgota. Mae'r rhan fwyaf ohonom yn gwybod eân Schubert, 'Die Forelle' (Y Brithyll), a rhai yn gyfarwydd â'r hen faled Gymraeg, 'Y Pysgotwr'. Ond un o'r pethau mwyaf trawiadol ynglŷn ag un llawysgrif alawon o'r ddeunawfed ganrif yw'r ffaith ei bod yn agor gyda thraethawd 17 tudalen yn Gymraeg ar bysgota.

Pwy oedd yr awdur? Rhoddodd ei enw ar y dudalen gyntaf, a'r dyddiad: John Thomas, 1752. Mae'n rhaid ei fod yn ddydd addysgedig mewn cyfnod pan oedd llawer yn anlythrennog. Ond roedd John Thomas hefyd yn gerddor gyda diddordeb byw mewn cerddoriaeth o bob math.

Yn dilyn y traethawd ar bysgota ceir tua deg alaw, ac yna cais i lunio pennod agoriadol llawlyfr ar gyfer hyfforddi ei gyd-Gymry yng nghelfyddyd cerdd. Ymddengys bod John Thomas yn seilio ei waith ar fodolau Seisnig am ei fod yn cael trafferth weithiau gyda'r termau, gan gyfieithu, er enghraifft, 'treble, tenor and bass' fel 'trifflig, canol a gostyngiad'. Yn sicr dyma un o'r penodau cyntaf o'r fath yng Nghymru, onid yn wir y gyntaf un.

OND GORWEDD pwsigrwydd pennaf y llawysgrif yn yr alawon eu hunain, bron 350 ohonynt, sy'n adlewyrchu galwadau cerddorol a chymdeithasol y cyfnod. Mae'n debyg fod John Thomas yn ffidler, oherwydd ar un dudalen dengys sut i diwnio'r ffidil ar gyfer alaw arbennig.

Hefyd, mae bron pob alaw yn ddiwyfeiliant, yn wahanol i rai y telynorion, sydd yn debyg o gynnwys y melodi a'r bâs. Mwy na thebyg, roedd John Thomas yn ffidler proffesiynol.

Ceir dwsinau o finiwetau sy'n addas i ddawnsfeydd yn y plastai yn ogystal â dwy esiampl o ddawnsfeydd ffalig a oedd yn rhan o'r anterliwtiau. Gesyd gyfansoddiadau gan Handel, Lully, William Boyce, Thomas Arne a Barberini ochr yn ochr â ffefrynnau y werin bobl.

O ble y cafodd John Thomas ei alawon? Mae'n amlwg iddo gopïo rhai ohonynt o lyfrau Seisnig (neu Albanaidd) fel *The Dancing Master* a *Caledonian Dances*, Walsh. Cyflwynir rhai alawon yn y llawysgrif yn hollol fel yr ymddangosant yn y lyfrau printiedig, gydag arwyddion cywair a rhythm, a llinellau bar cywir.

Ond mae eraill sydd yn amlwg wedi eu cofnodi o'r traddodiad 10



Enghraifft o "hen nodiant" dyrys John Thomas

llafar, llawer ohonynt yn Gymreig, fel 'Y Cowper Mwyn', neu'n estroniaid wedi hen ymgartrefu yng Nghymru, fel 'Greece and Troy'.

Cofnodwyd rhai ganddo heb unrhyw gyfarwyddyd i'r perfformiwr ... heb arwyddion cywair, na llinellau bar ricolaid, na rhythm cyson, dim ond y nodau moel.

Ceir llawer sy'n ymddangos ar bapur, hyd y gwyddys, am y tro cyntaf yng Nghymru, yn cynnwys rhai o ffefrynnau'r baledwyr cynnar: alawon fel 'Conceit Evan Glan Teifi', 'Drygan (Erddigan) Troed y Nant', 'Crimson Velvet', 'Moessen Salmon' (Monsieur's Almain) a 'Leave Land'.

Mae'r rhain i gyd mewn rhyw ffurf o hen-nodiant, hyd yn oed y rhai heb arwyddion cywair a rhythm; ond cyflwynir 135 o'r alawon mewn nodiant hynod sy'n defnyddio naw llinell a dotiau du heb gynffonau.

Yn ffodus mae John Thomas yn cynnwys esiamplau eraill mewn hen-nodiant o rai o'r alawon hyn ond erys tua 60 alaw yn y nodiant od yn unig, a chyfyd hyn broblemau dyrys i'r sawl sy'n ceisio ei ddarllen. Pam y dewisodd John Thomas y fath nodiant?

Ai copïo alawon o lawysgrif rhyw delynor annysgedig a wnaeth? Efallai, ond mae hefyd yn bosibl iddo ddatblygu'r dull ei hun fel rhyw fath o law-fer. Beth bynnag am hynny, canwr yr ymddangosiad cyntaf yng Nghymru o alawon fel 'Breuddwyd y Frenhines', 'Charity Mistress', 'Ffarwel Ned Puw', 'Nos Galan', ac '(Ar) Hyd y Nos'; yn y nodiant rhyfedd hwn.

I BA RADD y mae John Thomas yn cynrychioli chwaeth gerddorol ei gymdeithas? Gradd sylweddol, dybiwn i. Mae'r casgliadau argraffedig o gerddoriaeth draddodiadol yn brin yng Nghymru cyn canol y ddeunawfed ganrif. Tua 1725, ymddangosodd *Aria di Camera*, yn cynnwys 70 alaw o'r Alban ac Iwerddon a phump yn llawysgrif John Thomas.

Ond yn ddiameduol y llyfr

pwsig cyntaf yn y maes oedd *Antient British Music*, gan John Parry ac Evan Williams, yn cynnwys 24 'tunes never before published, which are retained by the Cambro-British (more particularly in North Wales)... O'r 24 alaw, mae 17 i'w cael yn llawysgrif John Thomas; nid copïau o fersiynau John Parry ac Evan Williams ond fersiynau gwahanol o'r un alawon.

Mae'n ddiddorol cymharu enwau alawon yn llawysgrif John Thomas â'r enwau yn *Llawysgrif Richard Morris o Gerddi*, c. 1717. Mae gan Richard Morris dros 370 o enwau-alawon mewn rhestrau sy'n wasgaredig trwy'r llyfr, rhestrau a achosodd benbleth i rai oherwydd y toreh o deitlau Saesneg sydd ynddynt.

Ond nid oes alawon yn y llawysgrif ac felly ni allwn fod yn sicr fod Richard Morris ei hun yn gwybod yr alawon. Mae'n hollol bosibl ei fod wedi copïo rhai enwau o lyfrau fel *The Dancing Master*, heb fod yn gyfarwydd â'r alawon eu hunain.

Cynnwys benillion i'w canu ar 41 o'r alawon a grybwyllir ganddo, ac y mae enwau 47 eraill ohonynt yn ymddangos ymhlith 'The names of the tunes that I can sing on the viol'. Awgryma pennawd un rhestr, 'Henwau mesura fel y canlun (mwyn iawn) fod Richard Morris yn gyfarwydd â'r mesurau hynny; ychwanegir, felly, saith alaw i'r cyfanswm. Gyda'i gilydd mae'r tair rhestr yn cynnwys enwau 95 alaw y gallwn fod yn hyderus eu bod ar gael yng Nghymru ar y pryd.

Ceir tua 75 alaw yn llawysgrif John Thomas sy'n ymddangos ar restrau Richard Morris, gan gynnwys tua 41 nad ydynt ar y rhestrau uchod. O ganlyniad mae gwaith John Thomas yn gymorth i lunio darlun cyflawnach o gerddoriaeth y ddeunawfed ganrif yng Nghymru.

A cheir un ffynhonnell bwysig arall yn rhan gyntaf y ganrif, sef Llyfr Ofergerddi Margaret Davies o Drawsfynydd, dyddiedig 1738. Mae tua hanner yr alawon a grybwyllir yn ei llawysgrif hi i'w cael ar dudalennau John Thomas.

Y MAE ystod eang iawn i oed yr alawon a gawn yng nghasgliad John Thomas; ffaith a ddengys mor geidwadol (yn ystyr orau'r gair) oedd y Cymry. Er enghraifft, gellir oirhain 'Drygan troed tant' (Erddigan tro'r tant), 'Moessen Salmon' (Monsieur's Almain), 'Crimson Velfed', 'Green Sleeves' a sawl alaw arall yn ôl i'r unfed ganrif ar bymtheg.

Ar y llaw arall nodai John Thomas ganeuon poblogaidd ei gyfnod, fel 'The First of August', sydd yn dathlu esgyniad Siôr 1 i orsedd Prydain yn 1714 (cenir yr alaw o hyd yng Nghymru i eiriau J. Glyn Davies: 'Fflat Huw Puw') neu 'Brave Admiral Vernon' sy'n dathlu buddugoliaeth y morwr hwnnw yn cipio Porto Bello yn 1739.

Mae'n debyg hefyd fod teitlau fel 'Charli over the water', 'Charley's dragoons' a 'Duke W's march' yn cyfeirio at wrthryfel y Stiwartiaid yn 1745.

Ceir cynhyrchiadau cyfansoddwyr clasurol y dydd yn ogystal. Roedd Handel yn dal yn fyw pan gychwynnodd John Thomas ar ei lawysgrif a daw o leiaf saith o'r alawon o waith Handel.

Mae 'Blooming Fanny' yn y llawysgrif yn gopi o alaw o'r enw 'The Ravished Lover' gan William Boyce, a gyhoeddwyd yn 1736. Arhosodd yr alaw yn boblogaidd yng Nghymru a'r tro nesaf iddi gael ei nodi oedd yn *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg*, 1844, o dan y teitl: 'Ffanni Blodau'r Ffair'.

ER BOD John Thomas yn offerynnwr a chwaraeai yn y dawnsfeydd, mae'n amlwg ei fod hefyd yn chwarae alawon rhai o faledi poblogaidd y dydd. Ymddengys dros hanner cant o'r alawon a grybwyllir yn y *Bibliography of Welsh Ballads*, yn ogystal â tua 30 o *Flodeu-gerdd Cymry* Dafydd Jones o DreFriw, (1759), yn ei lawysgrif.

At hyn oll enwir o leiaf 40 o alawon John Thomas yn anterliwtiau'r cyfnod, gan gynnwys alawon y ddwy ddawns ffalig.

Ymddengys fod tua hanner yr alawon yn Gymreig, naill ai'n gwreiddio yng Nghymru fel 'Diferiad y gerwyn' a 'Cil y fwyalch', neu wedi hen ymgartrefu yma fel 'Charity Mistress' (Gerard's Mistress) a 'Gwel yr adeilad' (See the building).

Ac y mae o leiaf naw o enwau Cymraeg ar alawon nad ydynt ar gael mewn llyfrau eraill, fel 'Dawns y gŵr marw', 'Pont y gogledd' a 'Hud Sir Fôn'.